Canlyniadau Contracteiddio (a Masnacheiddio) Iechyd a Gofal a Chymorth Cymdeithasol o ran Staffio

Ail-dendro Gwasanaethau i Oedolion Agored i Niwed

Mae Unison wedi sefydlu gweithgor sy'n ymchwilio i fasnacheiddio a thendro yn y sector gwirfoddol.

Mae'r aelodau'n cynnwys:

Jez James Cartrefi Cymru

Malcolm Marshall United Welsh Housing

Robert Hope Gwalia

Un o'n nodau yw tynnu sylw at y problemau mae'r sector gwirfoddol yn eu hwynebu yn y diwylliant contractio cynyddol. Rydym yn lobïo Cynulliad Cymru ar y mater hwn.

Canlyniadau Contracteiddio (a Masnacheiddio) Iechyd a Gofal a Chymorth Cymdeithasol o ran Staffio

Ers nifer o flynyddoedd, mynegwyd pryder am y `diwylliant contractio' cynyddol ym maes Iechyd a Gofal cymdeithasol. Er i'r duedd hon fod yn llawer mwy pellgyrhaeddol yn Lloegr, mae yna arwyddion bod darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru'n cael ei masnacheiddio fwyfwy, gyda nifer o enghreifftiau'n dod i'r amlwg o dendro ar raddfa fawr am wasanaethau.

Mae un dull penodol o gaffael gwasanaethau yn y sector cyhoeddus (a chyfyngiadau ariannol) yn annog awdurdodau lleol i dendro'n gystadleuol. Mewn llawer o achosion, mae hyn am wasanaethau a sefydlwyd i oedolion ag anableddau dysgu fel rhan o Strategaeth Cymru Gyfan i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn y 1980au a'r 1990au.

Ofnir y bydd y duedd hon yn ymestyn i feysydd eraill o ofal cymdeithasol, yn anad dim “cefnogi pobl”, os nad yw hyn yn digwydd eisoes. Yn sicr disgwylir, â chryn anesmwythyd, y bydd arian cefnogi pobl yn cael ei drosglwyddo ar raddfa fawr i awdurdodau lleol.

Yn y 12 mis diwethaf mae Cyngor Dinas Caerdydd a chyngor Bro Morgannwg, fel cynghorau Sir Benfro a Cheredigion, wedi rhoi'r rhan fwyaf o'u gwasanaethau cymorth i oedolion ag anableddau dysgu allan i dendr. Ymddengys fod awdurdodau eraill yn ystyried gwneud hyn, neu o leiaf bygwth hyn er mwyn “hoelio'r meddwl” ar adeg o gyfyngiadau ariannol.

Er y bydd yr awdurdodau lleol hyn yn honni bod modd arbed costau, mae pethau'n wahanol iawn mewn gwirionedd. Mae costau'r broses, a chostau monitro'r contract wedi hynny, yn sylweddol. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn cymryd i ystyriaeth bod yna darfu ar, a thynnu sylw oddi ar, y gwaith o ddarparu gwasanaethau a chymorth, ac yn fwyaf arwyddocaol, bod ymdeimlad o ansicrwydd yn cael ei greu ymysg y staff. Costau staffio yw'r rhan fwyaf o gostau contract (hyd at 90%), felly'r unig ffordd realistig o sicrhau arbedion ariannol sylweddol yw trwy gwtogi ar gyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth. Mae hyn, man lleiaf, yn peri pryder i'r staff ac yn arwain at ymddieithriad, digalonni ac, yn aml iawn, pobl yn gadael eu swyddi. Yn aml mae staff a rheolwyr hyfforddedig a brwdfrydig yn cael eu colli, cyn neu ar ôl y trosglwyddo i gyflogwr newydd dieithr, neu'n wynebu cael eu diswyddo. Mae buddsoddiadau mawr mewn uwchsgilio a chymhwyso staff a rheolwyr yn gallu mynd yn wastraff. Mae sylw'r staff gofal presennol yn cael ei dynnu oddi ar ofalu, ac mae gwybodaeth a pherthnasoedd gwerthfawr yn cael eu peryglu ac yn aml eu colli. Mae uwch swyddogion ym mhob asiantaeth gofal yn defnyddio eu sgiliau a'u hegni i dendro a mireinio eu strategaethau. Mae llawer o amser yn cael ei

dreulio'n ad-drefnu gwasanaethau er mwyn ennill tendrau ac ail-dendrau mewn cylch di-baid, ac wrth reswm mae hyn ar draul gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae ethos y sector gwirfoddol yn cael ei danseilio ac mae'n dod yn fwyfwy anodd gweld y gwahaniaeth rhwng sefydliad er elw a sefydliad dielw.

Er bod y Rheoliadau Trosglwyddo (TUPE) yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad, fel arfer mae hyn yn cael ei erydu dros amser yn hytrach na'i ddatblygu. Hefyd, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn eisoes wedi cael eu contractio gan awdurdodau lleol i ffynonellau allanol ac nad oes dim gweithwyr a gyflogir yn uniongyrchol, nid oes dim amddiffyniad rhag datblygu “gweithlu dwy haen” bondigrybwyll. Nid yw Cod Ymarfer Materion y Gweithlu mewn Contractau Gwasanaeth Sector Cyhoeddus yn berthnasol. Mewn rhai o'r enghreifftiau isod nid yn unig caniateir i ddwy haen o gyflogeion ddatblygu, ond weithiau pump neu chwech o fewn yr un contract, a nifer fwy byth yn ardal un awdurdod lleol. Cyfyngedig iawn yw'r cyfleoedd i ddatrys y problemau hyn, ond maent yn achosi dicter mawr ac yn dargyfeirio llawer iawn o amser y rheolwyr.

Mae'r sefyllfa yng Nghaerdydd yn arbennig o addysgiadol. Yn 2007, rhoddodd Cyngor Dinas Caerdydd dros 100 o brosiectau tai â chymorth/ cartref, oedd yn effeithio ar bron 300 o unigolion ag anableddau dysgu, allan i dendr ar yr un pryd. O'r chwe darparwr blaenorol yng Nghaerdydd, dim ond dau lwyddodd i sicrhau unrhyw waith a chollodd un ohonynt ei holl brosiectau blaenorol. Dim ond gydag ewyllys da ac ymroddiad y staff y llwyddwyd i osgoi anhrefn llwyr. Fodd bynnag, mae gan bob un o'r darparwyr newydd liaws o delerau ac amodau cyflogaeth i ymdrin â hwy a bydd yn anodd iawn sicrhau unrhyw system gyflogau deg ac wedi'i chydgordio, yn enwedig o gofio'r wasgfa barhaus ar gyllidebau. Yn ddiddorol, ac yn ddoeth nhyb rhai, ni roddodd cyngor Caerdydd ei wasanaethau cymorth llety mewnol ei hun allan i dendr. Achosodd hyn rywfaint o anesmwythyd a dicter ar y pryd ymysg y staff, a oedd eisoes â thelerau ac amodau llai ffafriol ac a ddioddefodd brofiad mor drawmatig. Nid yw triniaeth wahanol fel hyn yn helpu'r perthnasoedd rhwng y sector statudol a'r trydydd sector, sydd eisoes yn aml yn llawn tyndra, er na fyddai neb eisiau gweld unrhyw un yn cael ei lusgo trwy'r broses dendro. Yn ddiddorol, pan wnaeth cyngor Bro Morgannwg rywbeth tebyg gyda'i 27 o brosiectau i oedolion ag anableddau dysgu yn ddiweddarach yn 2007, cafodd tri chynllun mewnol eu cynnwys. Eto bu newid dirfawr, gyda phob un ond un o'r darparwyr blaenorol yn cael eu diswyddo a set hollol newydd yn cael ei chyflwyno. Enillodd un cwmni preifat heb ddim profiad blaenorol yng Nghymru 20 o'r 27 o gynlluniau, gan gynnwys y tri gwasanaeth mewnol.

Bu'r trosglwyddiad i'r darparwr newydd hwnnw'n ddi-drefn am nifer o resymau, yn anad dim diffyg paratoi a fetio priodol ar ran yr awdurdod lleol a diffyg arbenigedd a gallu ysgubol ar ran y darparwr sector preifat newydd. Bu'n anodd eithriadol sicrhau y gweithredir Cod Ymarfer Materion y Gweithlu mewn Contractau Gwasanaeth Sector Cyhoeddus, gan fwyaf oherwydd anwybodaeth a chyndynrwydd y Cyngor a'r contractwr.

Ymhen hir a hwyr mae cynnydd yn cael ei wneud ond hyd yn oed yn awr (6 mis yn ddiweddarach) nid yw llawer o'r staff yn cael eu talu'n gywir. Mae cyn-weithwyr cyngor heb gael eu haildderbyn ar eu cynllun pensiwn o hyd, ac nid yw'n glir a oes unrhyw un wedi cael ei recriwtio eto gan y contractwr newydd ar delerau ac amodau llywodraeth leol, fel sy'n ofynnol gan y Cod. Fodd bynnag, o leiaf mae yna amddiffyniadau go iawn ar gael i'r gweithwyr cyngor hynny a'u cydweithwyr sy'n dod i mewn. Yn anffodus nid oes gan staff eraill sy'n trosglwyddo amddiffyniadau hanner cystal ac yn sicr mae eu cydweithwyr newydd yn cael eu cyflogi gyda phecynnau sy'n amlwg yn llai ffafriol. Mae'r contractwr sector preifat mawr hwn wedi cymryd drosodd cynlluniau oddi wrth naw gwahanol ddarparwr. Mae anhrefn ynghylch telerau ac amodau wedi achosi i lawer o bobl beidio â chael eu talu'n gywir ac mae unrhyw obaith am gyflogau teg a chyfartal yn diflannu i'r dyfodol pell.

Mae'n anodd gweld sut y gall yr arferion contractio masnachol hyn fod o fudd i rai o'r oedolion mwyaf bregus yn y gymdeithas. Mae cyflogau isel eisoes yn bla ar y sector ac nid yw'r masnacheiddio hyn ond yn gwaethygu'r problemau cysylltiedig.

Does bosibl bod yn rhaid i awdurdodau sy'n gosod contractau ddadansoddi ac ystyried effaith eu polisïau. Nid yn unig mae yna ystyriaethau o ran y ddyletswydd cydraddoldeb i roi sylw iddynt, ond hefyd dyletswydd fwy cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus wrth wario symiau mawr o arian cyhoeddus i sicrhau nid yn unig nad yw'r bobl o dan yr anfantais fwyaf yn cael eu trin yn annheg ond hefyd i fynd ati i gynnal safonau.

<u>Argymhellion</u>

- Dylid adolygu arferion contractio awdurdodau lleol ym maes gofal cymdeithasol

- Dylai'r Cod Ymarfer Materion y Gweithlu mewn Contractau Gwasanaeth Sector Cyhoeddus gael ei ymestyn, lle bo'n ymarferol, i bob contract gwasanaeth yn y sector cyhoeddus

- Dylai trosglwyddo arian cefnogi pobl i awdurdodau lleol gael ei ohirio a'i adolygu'n llawn a dylid asesu ei effaith, ac, os yw i fynd ymlaen, dylid cyhoeddi canllawiau priodol ynghylch caffael.

- Dylid defnyddio egwyddorion ymgynghori a phartneriaeth gyda darparwyr y trydydd sector a'u gweithluoedd yn yr un ffordd â gydag awdurdodau cyhoeddus a'u hundebau llafur, fel y caniateir ar ei gyfer o dan y cytundeb ar Bartneriaeth a Rheoli Newid.